Cais am Gyllid AHRC (Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau) am Ddyfarniadau Ôl-radd: Gwybodaeth Gyffredinol

1. Cyflwyniad i ddyfarniadau ôl-radd a ariennir gan AHRC

Mae'r AHRC yn cynnig ysgoloriaethau ymchwil ôl-radd llawn amser a rhan amser o dan dri chynllun:

- Dyfarniadau Doethuriaeth
  Mae Dyfarniadau Doethuriaeth a ariennir gan AHRC yn darparu cymorth i fyfyrwyr (llawn amser a rhan amser) sy'n astudio am ddoethuriaeth. Mae'n gynllun sy'n agored i ymgeiswyr a fydd yn cychwyn ar eu hastudiaeth ymchwil ac i fyfyrwyr ymchwil cyfredol sydd eisoes wedi cwblhau rhan o'u rhaglen (cyhyd ag y bo o leiaf 12 mis llawn neu 20 mis rhan amser o'r cyfnod cofrestredig ar ôl). Dylai ymgeiswyr wneud cais am ddyfarniad doethuriaeth hyd yn oed os oedden nhw wedi cofrestru am MPhil ar y dechrau ar yr amod eu bod yn bwriadu uwchraddio i PhD ar ôl y cyfnod prawf. Fel arfer, cynigir dyfarniadau doethuriaeth am uchafswm o 3 blynedd llawn amser (neu 5 mlynedd rhan amser).

- Paratoi Ymchwil Meistri (RPM)
  Mae Dyfarniadau Paratoi Ymchwil Doethuriaeth wedi'u hariannu gan yr AHRC yn darparu cymorth i fyfyrwyr (llawn amser neu ran amser) sy'n astudio ar gyfer gradd Meistr a fydd yn eu paratoi ar gyfer ymchwil doethuriaeth (h.y. gradd Meistr neu MPhil a addysgir dan arweiniad ymchwil).

- Paratoi Proffesiynol Meistr (PPM)
  Mae Dyfarniadau Paratoi Proffesiynol Meistr wedi'u hariannu gan yr AHRC yn darparu cymorth i fyfyrwyr (llawn amser neu ran amser) sy'n gwneud astudiaeth ôl-radd sy'n datblygu lefel uchel o sgiliau a chymwyseddau i'w paratoi ar gyfer arfer proffesiynol mewn maes sy'n berthnasol i gynnwys y rhaglen. Mae rhaglenni Meistri a Diploma Ôl-radd y naill a'r llall yn gymwys.

  Mae dyfarniadau Meistr (RPM a PPM) ar gyfer uchafswm cyfnod o 9 mis llawn amser (neu 12 mis rhan amser) ac ar gyfer 12 mis llawn amser (neu 24 mis rhan amser).

  Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol fod y gystadleuaeth am ddyfarniadau AHRC yn ffyrnig iawn. Mae'r cyllid yn gyfyngedig felly ceisiadau o ansawdd uchel iawn all fod yn llwyddiannus. Yng nghylch dyfarniadau 2008, mae'r data a gyhoeddwyd gan yr AHRC yn dangos i 80% o'r doethuriaethau, 98% o'r dyfarniadau Paratoi Ymchwil a 84% o'r dyfarniadau Paratoi Proffesiynol gael eu dyfarnu i ymgeiswyr a oedd wedi ennill graddau dosbarth cyntaf.

2. 'Partneriaeth Grant Bloc' yr AHRC

O fis Hydref 2009 ymlaen, mae'r AHRC yn cyllido mwyafrif ei ysgoloriaethau ymchwil drwy Bartneriaeth Grantiau Bloc (neu 'BGP'), sy'n cael eu dal gan rai prifysgolion am gyfnod o 5 mlynedd. Drwy'r BGP, mae'r AHRC wedi datganoli gweinyddu dyfarniadau ysgoloriaethau ymchwil i'r Brifysgol.

Mae Caerdydd yn gwahodd ceisiadau yn y meysydd pwnc canlynol ar gyfer astudiaethau a fydd yn dechrau yn 2012/13.

Doethuriaethau	Meistri Paratoi Ymchwil:
Archaeoleg	Cerdd
Astudiaethau Celtaidd	Iaith a Llenyddiaeth Saesneg
Astudiaethau Crefyddol	Iaith a Diwylliant Ewropeaidd
Athroniaeth	Hanes
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio
Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio	
Hanes	Meistri Paratoad Proffesiynol
	Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu
	Newyddiaduraeth ac Astudiaethau Cyhoeddi

Mae'r nodiadau a baratowyd er mwyn helpu ymgeiswyr i lenwi'r ffurflenni cais yn cynnwys disgrifiadau o feysydd pwnc AHRC. Fe'u bwriadwyd i fod yn fras ac mae rhywfaint o orgyffwrdd. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen y rhain yn ofalus gan y gallai prosiect ymchwil arfaethedig neu raglen ôl-raddedig arfaethedig fod yn gymwys ar gyfer ystyriaeth o dan fwy nag un pwnc.'

3. Y broses o wneud cais

Gellir lawr lwytho'r holl ffurflenni a dogfennau atodol o wefan: www.cardiff.ac.uk/ahrcawards

Dylai ymgeiswyr dyfarniad AHRC (ar wahân i fyfyrwyr PhD hanner ffordd drwy'u rhaglen ymchwil) fod wedi wneud cais i Brifysgol Caerdydd drwy'r broses gwneud cais arferol ar gyfer y rhaglen dan sylw ac wedi cael cynnig lle (diamod neu'n amodol) erbyn iddyn nhw gyflwyno'r cais am gyllid AHRC.

Mae gwneud cais am arian AHRC yn broses wahanol. Mae ffurflenni cais a nodiadau ar gwblhau'r ffurflenni ar gael ar dudalennau gwefan Caerdydd ac o'n Hysgolion Dyniaethau.

4. Meini prawf cymhwyster

Dim ond i fyfyrwyr y DU neu'r UE y mae ysgoloriaethau AHRC ar gael. Gallai'r rhai a ddynodir gan y Brifysgol yn UE at bwrpas talu ffioedd fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad ffioedd yn unig neu ddyfarniad llawn yn dibynnu ar hyd y cyfnod y maen nhw'n preswylio yn y DU.

Rhaid bod ymgeisydd wedi ennill gradd israddedigion o brifysgol gydnabyddedig neu fod yn fyfyriwr israddedig yn disgwyl graddio cyn 31 Gorffennaf 2012. Fel arfer, dylai'r rhai sy'n gwneud cais am ddyfarniad doethuriaeth fod yn astudio ar gyfer gradd Meistr neu'n meddu ar radd Meistr.

Am ragor o wybodaeth ar pwy sy'n gymwys ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil AHRC, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn mynd i wefan yr AHRC: http://www.ahrc.ac.uk/FundingOpportunities/Documents/GuidetoStudentFunding.pdf

Gellir anfon ymholiadau at staff ym Mhrifysgol Caerdydd ar ahrcqueries@cardiff.ac.uk

5. Sut caiff y cais ei asesu (BGP)

Petai Prifysgol Caerdydd yn llwyddo yn ei chais am BGP, bydd y broses asesu fel a ganlyn:

Asesir ceisiadau am ddyfarniadau a ariennir gan AHRC gan un neu fwy o'r Paneli Pwnc mewnol. Bydd yr ymgeisydd (mewn ymgynghoriad â'r Ysgol lle bydd y rhaglen wedi'i chanoli) yn nodi pwnc perthnasol yr AHRC ar y ffurflen gais. Os ydy natur cyd-ddisgyblaethol yr astudiaeth yn golygu y byddai'n fwy addas i fwy nag un Panel asesu'r cais, mae gofod ar y ffurflen gais i nodi hyn.

Uwch academyddion o Ysgolion Dyniaethau Caerdydd sy'n hynod brofiadol o ran derbyn ac addysgu ôl-raddedigion, gan gynnwys arolygu ac arholi, ydy aelodau'r Panel.

Bydd y Panel yn cytuno ar radd ar gyfer pob ymgeisydd sy'n adlewyrchu asesiad yr holl gais. Gan gynnwys y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd am allu, tueddfryd ac ymrwymiad yr ymgeisydd a pha mor barod ydy e/hi i ymdopi â'r rhaglen, ac ansawdd y gwaith a gynhyrchir. Bydd y panel am gael sicrwydd y bydd yr Ysgol yn gallu cefnogi gofynion arbennig yr ymgeisydd a'i d(d)arpar raglen.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n rhan o'r broses o gwblhau'r cais yn gwneud eu gorau glas i ddarparu tystiolaeth cyn llawned a gorffenedig â phosibl i alluogi'r Panel Pwnc i wneud penderfyniad cytbwys.

Mae adroddiadau canolwyr, datganiad Ysgol a thystiolaeth o ganlyniadau blaenorol yn rhan hanfodol a phwysig o bob cais. Dylai canolwyr ddelio â'r cwestiynau a ofynnir iddyn nhw cyn llawned ac mor onest â phosibl, gan roi sylwadau manwl ar waith yr ymgeisydd a'i b(ph)arodrwydd ar gyfer y rhaglen arfaethedig.

Caiff pob cais ei farnu ar ei deilyngdod ei hun gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

Dyfarniadau Doethuriaeth:
- ansawdd yr ymgeisydd
- pa mor barod ydy'r ymgeisydd – ar gyfer y prosiect arfaethedig a darpar yrfa
- ansawdd a dichonolrwydd y prosiect ymchwil (gan gynnwys materion moesegol)

Dyfarniadau Meistr (Paratoi Ymchwil a Pharatoi Proffesiynol):
- ansawdd yr ymgeisydd
- pa mor barod ydy'r ymgeisydd – ar gyfer y prosiect arfaethedig a darpar yrfa
- ansawdd a dichonolrwydd yr astudiaeth arfaethedig

Cynghorir ymgeiswyr i gyfeirio at y meini prawf wrth gwblhau eu ffurflenni cais. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn llawn yn y nodiadau ar lenwi'r ffurflenni:
- Cais am Arian AHRC: **Rhaglen Ddoethuriaeth** – Nodiadau ar lenwi'r ffurflen
- Cais am Arian AHRC: **Rhaglen Meistr** – Nodiadau ar lenwi'r ffurflen.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhob un o'i harferion a'i gweithgareddau, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â derbyn myfyrwyr ac enwebiadau ar gyfer ysgoloriaeth ymchwil ac i weithio yn ôl yr egwyddorion canlynol: tegwch; tryloywder; proffesiynoldeb; hygyrchedd, gweithredu polisi a gweithdrefn yn gyson.

6. Sut caiff y dyfarniadau eu dyrannu

Bydd y Paneli Pwnc yn graddio pob cais a ystyrir ac, i'r rhai sydd â'r graddau uchaf, yn cytuno ar drefn y graddio. Gan gyfeirio at nifer y dyfarniadau a ariennir gan AHRC sydd ar gael ar gyfer y maes pwnc, bydd y Panel yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyfarniadau. Caiff y rhai wrth gefn eu nodi hefyd.

Bydd y Panel Adolygu Dyniaethau yn ystyried argymhellion yr holl Baneli Pwnc – ac yn penderfynu ar enwebiadau Caerdydd i'r AHRC.

7. Amserlen

Mae'r nodiadau ar lenwi'r ffurflen gais yn cynnwys rhestr wirio/amserlen ar gyfer y broses gwneud cais gyda'r dyddiadau allweddol wedi'u hamlygu. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

(A) **Ar gyfer pynciau ag eithrio Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi**

Dydd Gwener 2 Mawrth 2012 – rhaid cyflwyno'r cais llawn (Rhannau I a II, wedi'u llenwi gan yr ymgeisydd a'r canolwyr, yn y drefn honno), ynghyd â'r ddogfennaeth atodol, i gyswllt AHRC yr Ysgol
Dydd Gwener 16 Mawrth 2012 – rhaid cyflwyno'r cais llawn gyda'r ddogfennaeth atodol a chefnogaeth yr Ysgol i Swyddfa Ysgolion y Graddedigion
Diwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill 2012 – Paneli Pwnc yn cwrdd ac yn argymell enwebiadau am ddyfarniadau
Ebrill 2012 – Panel Adolygu'r Dyniaethau'n cadarnhau'r enwebiadau am ddyfarniadau; caiff yr ymgeiswyr a'r AHRC wybod am y canlyniadau.

(B) Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi

Dydd Llun 16 Ebrill 2012 – rhaid cyflwyno'r cais llawn (Rhannau I a II, wedi'u llenwi gan yr ymgeisydd a'r canolwyr, yn y drefn honno), ynghyd â'r ddogfennaeth atodol, i gyswllt AHRC yr Ysgol
Dydd Llun 23 Ebrill 2012 – rhaid cyflwyno'r cais llawn gyda'r ddogfennaeth atodol a chefnogaeth yr Ysgol i Swyddfa Ysgolion y Graddedigion
Mai 2012 – Paneli Pwnc yn cwrdd ac yn argymell enwebiadau am ddyfarniadau
Mai 2012 – Panel Adolygu'r Dyniaethau'n cadarnhau'r enwebiadau am ddyfarniadau; caiff yr ymgeiswyr a'r AHRC wybod am y canlyniadau.

8. Cysylltiadau AHRC yr Ysgol

Ysgol	**Cysylltiadau**	**E-bost**
Ysgol Bensaernïaeth Cymru	Katrina Lewis	LewisK2@cardiff.ac.uk
Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth	Rhian Rattray	encap-pg@cardiff.ac.uk
Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd	Jenny Hulin	euros-pgr@cardiff.ac.uk
Yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd	Fiona Nicholas	Nicholas@cardiff.ac.uk
Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol (MPP)	Jennifer Moseley	MoseleyJ@cardiff.ac.uk
Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol (D)	Cerys Parker	ParkerCB1@cardiff.ac.uk
Ysgol Gerddoriaeth	Sarah Woolley	WoolleySJ@cardiff.ac.uk
Ysgol y Gymraeg	Siwan Rosser	RosserSM@cardiff.ac.uk